Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFEN

# Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant - Cymorth Lleol Estynedig i'r Sector Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd

# Canllawiau Ymgeisio am Grant Refeniw

Canllawiau ar sut i wneud cais am y Grant Refeniw Cymorth Lleol Estynedig i'r Sector Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** Awst 2025 fersiwn 1.0

# Cynnwys


Cyflwyniad

Dyheadau cyfredol â blaenoriaeth

Trosolwg o’r cyllid

Cymhwystra

Yr hyn y byddwn yn ei ariannu / Yr hyn na fyddwn yn ei ariannu

Y broses ymgeisio

Cwblhau'r Meini Prawf Achos Busnes

Cyflwyno eich ffurflen gais Achos Busnes

Amserlen y cynllun grant

Y broses arfarnu

Gofynion prosiectau llwyddiannus

Ble y gallaf gael help?

# Cyflwyniad

Mae **Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant** (https://www.llyw.cymru/blaenoriaethau-ar-gyfer-diwylliant) Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025, yn darparu fframwaith polisi strategol y byddwn yn ei ddefnyddio i ystyried ein buddsoddiad grantiau refeniw yn ei erbyn yn y sectorau amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol.

# Dyheadau cyfredol â blaenoriaeth

Pan lansiwyd y Blaenoriaethau, tynnodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol sylw at y dyheadau canlynol fel meysydd ffocws ar gyfer y flwyddyn gyntaf o gyflawni:

D1: Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol.

D4: Mae diwylliant yn adlewyrchu anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc, ac yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y cenedlaethau.

D11: Mae ein treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn cael ei chofnodi a'i chefnogi i ffynnu.

D15: Mae'r sector diwylliant yng Nghymru yn lle gwych i weithio a gwirfoddoli, gyda gweithlu proffesiynol a medrus.

D16: Mae'r sector diwylliant yn dangos arweinyddiaeth a chydweithio yn ei ddulliau gweithredu ar gyfer datblygu cynaliadwy, meithrin gwydnwch, a mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Dylai'r holl fuddsoddiad drwy'r cynllun grant hwn ganolbwyntio ar gyflawni'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant, yn enwedig y dyheadau â blaenoriaeth hyn, gan hefyd gefnogi'r nodau llesiant ac ymrwymiadau perthnasol y Rhaglen Lywodraethu. Rydym yn croesawu ceisiadau sy'n rhychwantu sawl dyhead, nod ac ymrwymiad, neu efallai y bydd eich cais yn dymuno canolbwyntio ar un.

# Trosolwg o'r Cyllid

<u>Cwmpas</u>
Ym mis Awst 2025 lansiodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol y grant newydd yn gwahodd sefydliadau cymwys i gyflwyno ceisiadau am gyllid refeniw drwy'r broses a ddisgrifir yn y ddogfen ganllawiau hon. Bydd cyllid ar gael o fis Tachwedd 2025 ymlaen ac mae'r amserlen lawn i'w gweld ar dudalennau 18-19 o'r ddogfen hon. Rhaid i'r holl brosiectau ddechrau gweithgarwch erbyn mis Ionawr 2026 fan bellaf a disgwylir iddynt orffen erbyn mis Hydref 2026, oni bai y cytunwyd fel arall neu fod y cynllun yn cael ei ymestyn. Mae cyllid ar gyfer blynyddoedd dilynol yn dibynnu ar y gyllideb a fydd ar gael. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer cyfnodau byrrach.

Gall cyllid gefnogi gweithgarwch sy'n sicrhau effeithiau cadarnhaol ar sectorau amgueddfeydd, gwasanaethau archifau a llyfrgelloedd cyhoeddus lleol, nad ydynt yn rhai cenedlaethol, gan gynnwys datblygiadau digidol / a threftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yng Nghymru. Rydym yn croesawu'n arbennig gynigion sy'n cydweithio â phartneriaid ar draws y sector diwylliant neu rhwng ardaloedd awdurdodau lleol.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod cymaint o ardaloedd â phosibl yn elwa. Yn gyffredinol, dylid costio achosion busnes gan ddefnyddio cyfrifiadau safonol sy'n seiliedig ar boblogaeth Llywodraeth Leol, ond byddwn yn ystyried cynigion y gellir eu hehangu i alluogi'r grant i fod yn hyblyg i'ch anghenion.

<u>Blaenoriaethau</u>
Byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau sy'n cyd-fynd yn glir â dyheadau'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant a meysydd ffocws y Gweinidog a nodir isod (maen prawf 2).

Er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cael yr effaith fwyaf posibl ledled Cymru, rydym yn annog sefydliadau i gynnig ar y cyd, drwy strwythurau a phartneriaethau sector cyhoeddus presennol neu newydd, megis partneriaethau diwylliant awdurdodau lleol, byrddau partneriaeth rhanbarthol neu ardaloedd byrddau gwasanaethau cyhoeddus, grwpiau thematig neu sector (gweler Atodiad A, sy'n darparu rhestr ddarluniadol o bartneriaethau presennol a dyraniadau cyllid dangosol; sylwch fod y tabl yn ganllaw yn unig ac nid yw'n rhwymol). Bydd achosion busnes gan sefydliadau unigol yn cael eu hystyried ond rhaid iddynt ddarparu cyfiawnhad cadarn pam nad oedd modd cydweithio mewn ymateb i Gwestiwn 1.2 o'r Ffurflen Gais.

Byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau sy'n cael eu llunio ar y cyd â chymunedau lleol, gan gynnwys yn arbennig y rhai nad ydynt yn aml yn cael mynediad at wasanaethau diwylliannol, a sector amgueddfeydd a llyfrgelloedd cymunedol annibynnol (maen prawf 1).

Rydym yn croesawu'n arbennig opsiynau y gellir eu hehangu ar gyfer blynyddoedd dilynol (maen prawf 5).

Byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau sy'n cynnwys ymrwymiad i arallgyfeirio'r gweithlu. Gallai hyn gynnwys prentisiaethau neu hyfforddeiaethau o fewn eu strwythur adnoddau neu gyfleoedd ar gyfer secondiadau tymor byr neu leoliadau gwaith ar gyfer unigolion o gefndiroedd amrywiol a/neu sefydliadau llawr gwlad a chymunedol.

Byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau sy'n dangos eu cynaliadwyedd yn y tymor hwy (maen prawf 5), ac sy'n ceisio gwneud gwelliannau sylweddol i'r amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol yn yr ardal y maent yn berthnasol iddynt.

Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau sy'n cynnwys unrhyw lefelau o arian cyfatebol.

<u>Cyllid sydd ar gael</u>
Rydym yn bwriadu buddsoddi hyd at £2.5m. Rhaid i'r grant gael ei hawlio o fewn yr amserlen benodedig.

Bydd prosiectau'n cael eu hadolygu erbyn mis Awst 2026. Bydd cyllid parhaus yn y blynyddoedd dilynol yn ddibynnol ar arfarnu'r grant, y gyllideb sydd ar gael a blaenoriaethau'r Llywodraeth newydd.

Gan ddefnyddio cyfrifiadau fesul pen ar gyfer awdurdodau lleol, rydym yn rhag-weld y dylai ceisiadau fod gwerth oddeutu £25,000 o leiaf a gwerth £300,000 ar y mwyaf y flwyddyn. Er mwyn dyfarnu cyllid i ardaloedd ledled Cymru, nid ydym yn rhag-weld gwneud dyfarniadau yn fwy na hyn oni bai bod nifer fawr iawn o ardaloedd yn cyflwyno cynnig ar y cyd, e.e. ar lefel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Bydd y cyllid ar gael dros ddwy flynedd ariannol, gan gwmpasu cyfnod o 12 mis rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Hydref 2026, a dylai ymgeiswyr sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu hachos busnes. Rydym yn annog cynigion sydd wedi'u cynllunio i sicrhau effaith uchel o fewn yr amserlen hon, gyda'r gallu i'w

hehangu a'u haddasu i gyd-fynd â chyfleoedd ariannu posibl yn y dyfodol o dan dymor newydd y Llywodraeth a'i blaenoriaethau esblygol.

Os hoffech drafod, heb ragfarn, lefel ddangosol o gyllid y gellid ei ddarparu i grŵp penodol o sefydliadau, gweler Atodiad A am ganrannau bras neu cysylltwch â'r Is-adran Diwylliant drwy diwylliant@llyw.cymru.

Taliadau

Bydd y taliad yn cael ei wneud mewn ôl-daliadau bob chwarter oni bai bod tystiolaeth gymhellol bod angen grant neu gyfran o daliad grant ymlaen llaw. Gweler Cwestiwn 2.6 o'r Ffurflen Gais. Rhaid cytuno ymlaen llaw ar daliadau ymlaen llaw, unrhyw newidiadau i broffil gwariant a/neu weithgaredd. Mae'n annhebygol iawn y byddwn yn gallu cytuno bod gweithgaredd yn cael ei ohirio o un flwyddyn ariannol i'r llall.

# Cymhwystra

Mae'r gronfa hon ar agor ar gyfer ceisiadau gan bartneriaethau dan arweiniad Awdurdodau Lleol. Gweler atodiad A ar gyfer grwpiau a awgrymir, byrddau partneriaeth rhanbarthol ac ardaloedd byrddau sector cyhoeddus y gallech ymchwilio iddynt.

Diffinnir awdurdodau lleol arweiniol fel a ganlyn: Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau amgueddfeydd, archifau neu lyfrgelloedd lleol yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau digidol neu dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol, naill ai gwasanaethau a reolir gan awdurdodau lleol neu wasanaethau annibynnol o fewn eu cymuned leol – h.y. ar sail Awdurdod Lleol neu Ymddiriedolaeth.

Dylai ymgeiswyr ddangos yn glir yn eu cais sut mae gweithio mewn partneriaeth wedi cael ei ystyried, a pha amgueddfa, archif neu wasanaethau llyfrgell lleol y byddant yn gweithio gyda hwy. Mae'r gwasanaethau cymwys yn cynnwys:

1. Amgueddfeydd sydd wedi'u hachredu neu amgueddfeydd sy'n gweithio at gael eu hachredu o dan Gynllun Achredu Amgueddfeydd y DU sef:

- Amgueddfeydd annibynnol – mathau 1 i 3
- Amgueddfeydd awdurdodau lleol – mathau 1 i 3
- Amgueddfeydd prifysgol – mathau 1 i 3; a

2. Gwasanaethau llyfrgell sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol, llyfrgelloedd cyhoeddus statudol mewn ymddiriedolaeth neu lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned; a

3. Llyfrgelloedd annibynnol

4. Archifau achrededig, neu archifau sydd wedi ymrwymo i gael eu hachredu o dan Gynllun Achredu Archifau'r DU o fewn amserlen y cytunwyd arno, sef:

- Gwasanaethau archifau awdurdodau lleol – mathau 1 a 2; neu
- Prifysgolion a Llyfrgelloedd sydd â Chasgliadau Arbennig ac Archifau.

Gall hefyd gynnwys gweithgareddau i ddatblygu'r gweithluoedd, gan gynnwys byrddau neu wirfoddolwyr yn y sefydliadau hyn a gwella mynediad i gynulleidfaoedd amrywiol.

Byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau sy'n dangos sut maen nhw'n gweithio ar draws ffiniau daearyddol, sefydliad neu sector. Rydym yn annhebygol o flaenoriaethu ceisiadau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu un prosiect neu leoliad heb ddangos unrhyw gydweithredu.

# Yr hyn y byddwn yn ei ariannu / Yr hyn na fyddwn yn ei ariannu

Mae'r grant wedi'i ddatblygu i ddarparu cyllid refeniw i helpu i adfywio a gwella capasiti amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol yng Nghymru. Rhaid defnyddio'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau refeniw sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant.

Awgrymodd adborth y byddai'r sectorau yn elwa ar gymorth refeniw i ariannu gwahanol fathau o weithgareddau sy'n cyd-fynd â'r dyheadau. Rydym wedi llunio'r tabl canlynol i'ch helpu i ystyried pa fathau o weithgareddau yr hoffech eu hamlinellu yn eich achos busnes a'r hyn y gallwn ei ariannu o bosibl. Nid yw’r tabl hwn yn cynnwys popeth. Rydym yn croesawu syniadau ar gyfer gweithgareddau amgen a syniadau arloesol ar gyfer cyllid sy'n cyd-fynd â'r dyheadau.

| **Dyheadau Enghreifftiol** | **Mathau o weithgarwch refeniw – <u>nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth</u>. Cysylltwch â ni i drafod syniadau amgen os ydych chi'n ystyried nad yw'ch cynigion yn cydweddu.** |
| --- | --- |
| D1: Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol. | ➢ Lleoliadau gwaith unigol, creadigol a llawrydd ar lawr gwlad a chyfnewidiadau diwylliannol (gweler rhagor o fanylion isod).<br>➢ Allgymorth ac ymgysylltu â'r gymuned.<br>➢ Gweithgareddau marchnata a hyrwyddo.<br>➢ Cymorth i ddatblygu arddangosfeydd a digwyddiadau.<br>➢ Gwaith casglu gweithredol i wella amrywiaeth casgliadau ac i nodi ac achub casgliadau mewn perygl.<br>➢ Catalogio a gweithgareddau i wneud deunyddiau yn hygyrch i gynulleidfaoedd ehangach.<br>➢ Datblygu adnoddau i sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog ac amlieithog, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a fformatau hygyrch eraill. |
| D4: Mae diwylliant yn adlewyrchu anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc, ac yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y cenedlaethau. | ➢ Gwella cyfleoedd a chyfleusterau i blant a phobl ifanc, a chryfhau eu lleisiau.<br>➢ Cyllid ar gyfer ymweliadau ag amgueddfeydd, llyfrgelloedd a gwasanaethau archifau neu brosiectau allgymorth cydweithredol.<br>➢ Swyddi arbenigol a rennir fel Llyfrgellwyr Plant, Swyddogion Dysgu ac Allgymorth.<br>➢ Cyllid ar gyfer allgymorth addysgol i ysgolion, gan gynnwys datblygu adnoddau.<br>➢ Gweithgareddau marchnata a hyrwyddo.<br>➢ Cymorth i ddatblygu gweithgareddau, sy'n canolbwyntio ar lesiant plant. |
| D7: Mae diwylliant yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn adlewyrchu | ➢ Allgymorth a gwaith ymgysylltu â'r gymuned, gweithgareddau marchnata a hyrwyddo. |

| | |
|---|---|
| Cymru fel cenedl ddwyieithog ac amlieithog. | ➢ Cymorth i ddatblygu arddangosfeydd, digwyddiadau a chasgliadau ac i wneud deunyddiau yn hygyrch i gynulleidfaoedd ehangach.<br>➢ Gweithgareddau i sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog ac yn hyrwyddo dwyieithrwydd. |
| D10: Mae ein casgliadau a'n hasedau hanesyddol yn derbyn gofal, ac maent yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgu, creadigrwydd, creu lleoedd a llesiant diwylliannol. | ➢ Gwaith cadwraeth ar gasgliadau i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu, gan gynnwys cyflogi staff i ymgymryd â phrosiectau cadwraeth.<br>➢ Cyfleoedd hyfforddi/prentisiaethau i gadwraethwyr i sicrhau bod sgiliau arbenigol ar gael yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd i ddod.<br>➢ Cymorth i wirfoddolwyr i weithio ar brosiectau gofalu am gasgliadau.<br>➢ Prosiectau ymchwil i gynyddu'r sylfaen wybodaeth mewn meysydd arbenigol ar gyfer gofalu am gasgliadau.<br>➢ Cyflogi staff arbenigol eraill e.e. llyfrgellwyr astudiaethau lleol mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.<br><br>Gallai prosiectau groesi ffiniau sefydliadol pan fo gofyniad am lai na pherson amser llawn. |
| D11: Mae ein treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn cael ei chofnodi a'i chefnogi i ffynnu. | ➢ Datblygu ffocws ar dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol eich ardal.<br>➢ Dathlu treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol.<br>➢ Datblygu adnoddau digidol a phrofiadau sy'n hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol.<br>➢ Lleoliadau gwaith unigol, creadigol a llawrydd ar lawr gwlad a chyfnewidiadau diwylliannol (gweler rhagor o fanylion isod). |
| D12: Bydd cyrff diwylliant a threftadaeth yn cydweithio i fanteisio i'r eithaf ar botensial llawn timau a chasgliadau arbenigol, gan | ➢ Prosiectau blaengar sy'n cyflawni'r dyheadau, yn enwedig y rhai sy'n gweithio ar draws ffiniau sefydliadol, ardaloedd neu sector. |

| | |
|---|---|
| weithio gydag eraill i ystyried pŵer diwylliant a manteisio arno. | |
| D13: Mae arferion digidol da yn cefnogi ac yn gwella diwylliant. | ➢ Cefnogi'r gwaith o ddatblygu casgliadau a gwasanaethau digidol.<br>➢ Darparu mynediad digidol arloesol (e.e. sefydlu ‘ystafelloedd dosbarth’ digidol i gefnogi addysg a dysgu).<br>➢ Datblygu sgiliau digidol y gweithlu diwylliant drwy hyfforddiant a datblygu sgiliau.<br>➢ Archwilio potensial technolegau newydd, gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial (AI) i wella'r cynnig digidol.<br>➢ Lleoliadau gwaith tymor byr ar gyfer ymarferwyr neu arloeswyr digidol ar lawr gwlad (gweler rhagor o fanylion isod). |
| D15: Mae’r sector diwylliant yng Nghymru yn lle gwych i weithio a gwirfoddoli, gyda gweithlu proffesiynol a medrus. | ➢ Cefnogi'r gweithlu a datblygu sgiliau arbenigol.<br>➢ Datblygu hyfforddiant pellach, prentisiaethau a chreu llwybrau newydd i'r gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru.<br>➢ Cefnogi gwirfoddoli yn y sector.<br>➢ Lleoliadau gwaith unigol, creadigol a llawrydd ar lawr gwlad a chyfnewidiadau diwylliannol (gweler rhagor o fanylion isod). |
| D16: Mae’r sector diwylliant yn dangos arweinyddiaeth a chydweithio yn ei ddulliau gweithredu ar gyfer datblygu cynaliadwy, meithrin gwydnwch, a mynd i’r afael â’r argyfyngau hinsawdd a natur. | ➢ Cael mynediad at arbenigedd i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur.<br>➢ Treialu ffyrdd newydd o weithio i leihau effaith ein gweithgareddau.<br><br>Rydym yn arbennig o awyddus i weld dulliau cydweithredol ac amgen er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn ar raddfa fawr. |

Adnoddau
Gall cyllid gynnwys recriwtio staff parhaol, dros dro, ar gontract neu staff ymgynghorol a hyfforddeion/prentisiaid.

Os caiff staff eu recriwtio'n barhaol, bydd costau eu cyflogaeth ar ôl cyllid y prosiect, neu gost unrhyw ddiswyddiadau, yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r sefydliad recriwtio ac yn cael eu hysgwyddo ar eu risg eu hunain.

Gall ceisiadau gynnwys rheolwr/cydlynydd prosiect ac argostau cysylltiedig, ond ni ddylai hyn fod yn fwy na 50% neu £75k gan gynnwys argostau, pa un bynnag yw'r swm lleiaf/ y flwyddyn o'r dyfarniad grant. Rhaid cynnwys y manylion hyn yng nghostau eich cais.

Rhaglen Lleoliadau Gwaith ar lawr gwlad
Rydym yn croesawu'n arbennig creu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith tymor byr (3-6 mis) sy'n arallgyfeirio'r gweithlu, ac yn galluogi gweithwyr llawrydd, pobl greadigol ac unigolion sy'n gweithio ar lawr gwlad ym maes diwylliant i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd wrth ddatblygu mentrau yn eich ardal. Er enghraifft, gallai sefydliad diwylliant ar lawr gwlad ddod â phrofiad gwerthfawr wrth ymgysylltu â chymunedau, gan gynnwys wyneb yn wyneb neu'n ddigidol, neu wrth ddarparu canlyniadau o ansawdd uchel gydag adnoddau cyfyngedig, cefnogi amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau i wella gwaith ymgysylltu â'r gymuned a rhannu dulliau ymarferol y gall y sector lleol eu mabwysiadu.

Gall cynigion hefyd gynnwys trefniadau cilyddol lle mae awdurdod lleol neu aelod o staff ymddiriedolaeth yn ennill profiad am 3-6 mis yn gweithio mewn lleoliad gwahanol, a dod â'r sgiliau yn ôl i'w sefydliad sy'n lletya, gan gynnwys costau ôl-lenwi.

Gall yr holl rolau hyn fod ar gyfer unrhyw nifer o oriau hyd at amser llawn, gydag unigolion yn y swydd erbyn mis Chwefror 2026, er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd erbyn mis Medi 2026.

Treuliau sefydlu
Gall ceisiadau hawlio hyd at 10% ar gyfer mân dreuliau sefydlu yn 2025/26 a hyd at 5% yn 2026/27 i gefnogi'r cyllid refeniw, h.y. offer swyddfa, TGCh, dodrefn, addasiadau swyddfa, gwaith datblygu/uwchraddio/cadwraeth gwefannau, offer digideiddio ac ati. Nid yw hyn yn cynnwys ariannu gwaith neu

weithgareddau adeiladu. Gellir ariannu'r olaf drwy ein cynlluniau grant cyfalaf ar wahân.

Ni ellir defnyddio cyllid i gefnogi:

- Rhaglenni cyfalaf, adeiladu neu waith.
- Gwasanaethau statudol sy'n ofynnol yn gyfreithiol gan y sefydliad.
- Staff presennol neu i gymryd lle staff/rolau craidd a oedd o fewn strwythur sefydliadol yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- Rolau a gafodd eu recriwtio eisoes neu wasanaethau a gontractiwyd at ddibenion Diwylliant a ddechreuodd cyn y dyddiad dyfarnu.
- Gweithgarwch y gellir ei ariannu gan sefydliadau eraill, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru.
- Gweithgarwch mewn perygl o gael ei ariannu gan sawl ffynhonnell, gan arwain at ddyblygu gwariant cyhoeddus.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch pa rannau o'ch prosiect sy'n gymwys, cysylltwch â'r Is-adran Diwylliant yn **diwylliant@llyw.cymru**.

Rydym yn cydnabod yr egwyddor Adennill Costau Llawn wrth gyflawni'r prosiect; fodd bynnag, dylai'r costau fod yn gymesur â'r grant y gofynnir amdano ac sydd wedi'i nodi yn y cais. Mae rhagor o fanylion am yr egwyddor Adennill Costau Llawn ac arweiniad ar fodelau priodol ar gyfer cyfrif cyfraniad teg at orbenion i'w gweld yma: **Adennill Costau Llawn**
https://knowledgehub.cymru/cy/resources/adennill-costau-llawn/

# Y broses ymgeisio

Darllenwch y Canllawiau hyn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen gais. Rhaid cyflwyno pob cais am gyllid ar y templed a ddarperir. Bydd ceisiadau am gyllid gan sefydliadau sector annibynnol yn cael eu cadarnhau wedyn drwy broses ymgeisio ar wahân.

Mae'r ffurflen gais wedi'i rhannu'n bedair adran a rhaid cwblhau pob un. Dylai'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu fod yn gymesur yn dibynnu ar natur, math a graddfa'r cyllid y gofynnir amdano a'r gweithgareddau arfaethedig.

**Adran 1 – Manylion yr Ymgeiswyr**

Mae adran 1 yn gofyn am fanylion yr holl ymgeiswyr sy'n ymwneud â'r cais. Rhaid i'r sefydliad arweiniol fod yn Awdurdod Lleol neu Ymddiriedolaeth, a dylid

nodi'r cyswllt arweiniol yn glir. Bydd y person yn gyfrifol am yr holl gyfathrebu â Llywodraeth Cymru a bydd yr holl gyllid yn cael ei weinyddu drwyddynt.

Er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cael yr effaith fwyaf posibl ledled Cymru, rydym yn annog sefydliadau i ymgeisio ar y cyd drwy strwythurau sector cyhoeddus presennol, megis partneriaethau diwylliant awdurdodau lleol, ardaloedd bwrdd partneriaeth rhanbarthol neu fwrdd gwasanaethau cyhoeddus, grwpiau thematig neu sector.

Gallai'r grwpiau cymwys gynnwys y canlynol, ymhlith rhai eraill:

- Ardaloedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Ardaloedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Ardaloedd Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol
- Grwpiau Lleol – yn seiliedig ar awdurdodau lleol neu ranbarthau sy'n ffurfio eu grwpiau eu hunain
- Grwpiau thematig – yn seiliedig ar sefydliadau sy'n ffurfio grwpiau i ddarparu thema – un o'r dyheadau, digidol, plant a phobl ifanc, hyfforddiant
- Grwpiau Sector – grŵp o amgueddfeydd, llyfrgelloedd neu archifau

Bydd ceisiadau gan sefydliadau unigol yn cael eu hystyried ond rhaid iddynt roi cyfiawnhad cadarn pam nad oedd modd cydweithredu, yn enwedig pan fo trefniadau sy'n bodoli eisoes fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cwmpasu ardal ehangach. Rhaid i ymgeiswyr gwblhau Cwestiwn 1.2 o'r Ffurflen Gais i ddarparu cyfiawnhad ac ymateb i Faen Prawf 1 i ddangos cyrhaeddiad eu cynnig.

Rhaid i'r cais gael ei gwblhau gan Lofnodwr Awdurdodedig Arweiniol a rhaid iddo fod yn weithiwr sydd wedi'i awdurdodi'n briodol i weithredu ar ran sefydliad arweiniol cymwys; neu wedi'i awdurdodi'n briodol i weithredu ar ran bwrdd rhanbarthol neu grŵp o sefydliadau.

Ni all cyrff hyd braich na chyrff sector cyhoeddus cenedlaethol fod yn sefydliad arweiniol. Gallant fod yn sefydliad partner o fewn cynnig neu bartneriaeth gydweithredol, ond rhaid i'r cynnig ddangos yn glir sut y bydd eu rôl yn y prosiect yn cefnogi, yn datblygu ac yn gwella amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol, gan gynnwys eu gweithlu a'u cynulleidfaoedd.

**Adran 2 - Trosolwg o'r Cynnig Cyllido**

Mae adran 2 yn caniatáu i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth am eu cynnig cyllido, gan gynnwys yr hyn y mae'r cyllid ar ei gyfer, yr angen am yr adnoddau a'r gwasanaethau, yr amserlenni, y lleoliad, gwerth y grant a'r gofynion talu.

**Adran 3 – Achos Busnes**

Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno achos busnes sy'n amlinellu eu cais am gyllid refeniw drwy lenwi adran 3 o'r ffurflen ac ymateb i bob un o'r 5 Maen Prawf. Mae gan bob Maen Prawf ganllawiau ar y meysydd allweddol yr ydym yn disgwyl i ymgeiswyr nodi tystiolaeth yn eu herbyn yn eu hymatebion.

**MAEN PRAWF 1 – Nod, Amcanion a Chydweddiad Strategol**
**MAEN PRAWF 2 – Y gallu i gyflawni, Rheoli Prosiectau ac Adnoddau**
**MAEN PRAWF 3 – Fforddiadwyedd a Gwerth am Arian**
**MAEN PRAWF 4 – Mesur Llwyddiant**
**MAEN PRAWF 5 – Y gallu i ehangu a Chynllunio Cynaliadwyedd**

Rhaid i chi gadw at y terfynau geiriau a nodir a darparu tystiolaeth ychwanegol pan ofynnir am hynny. Rhaid i'r manylder ym mhob adran fod yn briodol ac yn gymesur i gwmpas a maint y cyllid y gofynnir amdano.

Gallwch gyflwyno nifer o ddogfennau a ffynonellau gwybodaeth gwahanol hefyd i gefnogi'r cais pan fo hynny'n berthnasol. Oni gofynnir amdanynt yn benodol, nid yw'r rhain yn orfodol ar hyn o bryd ond gellid gofyn amdanynt yn ystod proses gyflawni'r prosiect i gefnogi gwiriadau diwydrwydd dyladwy Llywodraeth Cymru a'u cynnwys yn eich diweddariadau Prosiect. Gallai'r dogfennau hynny gynnwys (ymhlith eraill):

- strategaethau diwylliant neu gynlluniau busnes sy'n cyd-fynd â'r dyheadau a flaenoriaethwyd ar gyfer y flwyddyn gyntaf o gyflawni, nodau llesiant ac ymrwymiadau perthnasol y Rhaglen Lywodraethu.
- dogfennau adnoddau fel disgrifiadau swydd a chynlluniau adnoddau;
- cynlluniau, offer ac amserlenni rheoli prosiectau;
- tystiolaeth gwerth am arian a fforddiadwyedd, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer ymarferion caffael, dyfynbrisiau, cymariaethau costau, proffiliau cyllideb.
- dogfennau llywodraethu a diwydrwydd dyladwy; a
- manylion profiad / arbenigedd staff cyflawni prosiect allweddol, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau.

Gellir dod o hyd i ganllaw defnyddiol i helpu sefydliadau i ddatblygu achos busnes yma – Canllaw ar ddatblygu achos busnes y prosiect | LLYW.CYMRU

**ADRAN 4 - Datganiadau a Dealltwriaeth**

Mae'n bwysig eich bod yn darllen ac yn ymateb i'r gyfres o gwestiynau datganiad a geir yn Adran 4.

Os ydych chi'n ateb yn gadarnhaol i unrhyw un o'r datganiadau, rhowch fanylion clir oherwydd y gallai effeithio ar eich siawns o gael cyllid grant.

Os ydych chi'n ymateb yn negyddol i'r holl gwestiynau, cwblhewch y Daflen Llofnodwyr i gymeradwyo eich cais.

Rhaid i'r cais gael ei lofnodi gan o leiaf ddau lofnodwr awdurdodedig o'r sefydliad arweiniol. Os ydych chi'n gwneud cais fel grŵp o sefydliadau, rhaid bod o leiaf un llofnodwr o bob sefydliad a fydd yn derbyn cyllid.

# Cwblhau'r Meini Prawf Achos Busnes

Gwnewch yn siŵr bod yr wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn mynd i'r afael â phob un o'r meini prawf y gofynnwyd amdanynt a'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani ym mhob pwynt bwled o leiaf:

**MAEN PRAWF 1 - Nod, Amcanion a Chydweddiad Strategol (terfyn o 750 o eiriau)**

- ***Nodau ac Amcanion:*** *Amlinellwch ddiben y cyllid refeniw a pham mae angen y gweithgareddau arfaethedig. Dylech gynnwys amcanion clir[1] a dangoswch sut maent yn cyd-fynd â safonau proffesiynol y sector ar gyfer amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd.*

- ***Cydweddiad Strategol a Dyheadau:*** *Esboniwch sut y bydd y cyllid yn cefnogi amgueddfeydd, archifau a gwasanaethau llyfrgelloedd lleol, a all gynnwys sefydliadau annibynnol, i gyflawni Dyheadau penodol yn y Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant a gofynion statudol, gan gynnwys ymrwymiadau a nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.*

[1] Lle bo hynny'n bosibl, gwnewch unrhyw amcanion a Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn rhai CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol) - Gosod Amcanion CAMPUS

- ***Ymrwymiad Sefydliadol:*** *Rhowch dystiolaeth o ymrwymiad presennol eich sefydliad ar gyfer amgueddfeydd, archifau neu lyfrgelloedd, ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol, gan gynnwys unrhyw waith ymgysylltu â thimau yn eich sefydliad(au).*

**MAEN PRAWF 2 – Y gallu i gyflawni, Rheoli Prosiectau ac Adnoddau (750 o eiriau ynghyd â Chynllun Prosiect ac Asesiad Risg lefel uchel)**

- ***Cyflawni Prosiectau:*** *Amlinellwch sut y bydd y gweithgareddau a ariennir yn cael eu rheoli, gan gynnwys tasgau, offer, rolau a chyfrifoldebau allweddol.*

- ***Cynllunio:*** *Rhowch gynllun prosiect dangosol neu siart Gantt gyda cherrig milltir allweddol a dyraniad adnoddau. Os nad yw ar gael eto, rhestrwch gerrig milltir disgwyliedig a dyddiadau cyflawni. Bydd angen cynllun llawn o fewn mis ar ôl dyfarnu cyllid.*

- ***Cydweithio:*** *Dangoswch eich ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth a sut y bydd cydweithio yn cael ei ymgorffori yn y cynnig, gan gynnwys gyda sefydliadau ar lawr gwlad pan fo hynny'n berthnasol.*

- ***Llywodraethu:*** *Disgrifiwch drefniadau llywodraethu presennol, yn enwedig ar gyfer partneriaethau cydweithredol, a manylwch ar unrhyw wiriadau diwydrwydd dyladwy ar gyfer partneriaid nad ydynt yn y sector cyhoeddus.*

- ***Adnoddau:*** *Esboniwch sut y bydd cyllid yn cael ei ddosbarthu a'i ddefnyddio'n effeithiol, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer staffio (e.e. recriwtio, secondiadau, cymorth ymgynghorol) o fewn cyfnod y grant.*

- ***Rheoli Risg:*** *Nodwch y tri risg prosiect uchaf a'r camau lliniaru arfaethedig gan ddefnyddio'r templed a ddarperir. Bydd angen asesiad risg llawn o fewn mis ar ôl dyfarnu cyllid.*

**MAEN PRAWF 3 – Fforddiadwyedd a Gwerth am Arian (500 gair a Thabl Costau wedi'i gwblhau)**

- ***Dadansoddiad o gostau:*** *Rhowch gostau amcangyfrifedig ar gyfer yr holl*

*weithgareddau a ariennir gan refeniw yn eich Achos Busnes, gan gynnwys staffio, gwasanaethau a phryniannau. Nodwch unrhyw fân dreuliau sefydlu sy'n ofynnol i gefnogi'r broses gyflawni.*

- ***Arian cyfatebol*** *– disgrifiwch yn glir unrhyw gynlluniau ar gyfer arian cyfatebol yn y tabl a ddarperir gan gynnwys ffynhonnell y cyllid.*

- ***Fforddiadwyedd:*** *Dangoswch fod y gweithgareddau arfaethedig yn ariannol hyfyw o fewn y swm grant y gofynnwyd amdano. Dangoswch sut mae costau wedi'u hasesu, ac wedi'u cyfiawnhau pan fo hynny'n bosibl ac unrhyw gynlluniau ar gyfer rheoli cynnydd mewn costau.*

- ***Gwerth am arian:*** *Esboniwch sut mae'r grant yn cynrychioli gwerth da am arian, gan gynnwys effeithlonrwydd ar draws eich sefydliad(au), eich sector neu'ch rhanbarth.*

- ***Caffael:*** *Amlinellwch eich dull o brynu nwyddau a gwasanaethau e.e. trwy dendrau, fframweithiau, neu gontractau presennol, i sicrhau cost-effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth. Dylech gynnwys gwybodaeth am sicrhau gwerth am arian drwy gydol y gadwyn gyflenwi.*

**MAEN PRAWF 4 – Mesur Llwyddiant (terfyn o 500 gair)**

- ***Effaith:*** *Amlinellwch eich dull o fonitro a gwerthuso eich cyllid. Esboniwch sut y byddwch yn mesur llwyddiant y cyllid a'r canlyniadau a'r effeithiau disgwyliedig a gyflawnwyd erbyn 31 Hydref 2026. Ystyriwch unrhyw dystiolaeth, data neu ymchwil sylfaenol a fydd yn cael eu defnyddio i ddangos tystiolaeth o lwyddiant a chynnydd.*

- ***Dangosyddion Perfformiad Allweddol****: Darparwch dri Dangosydd Perfformiad Allweddol CAMPUS[2], pob un yn gysylltiedig ag o leiaf un Dyhead a nodwyd. Bydd y rhain yn cael eu cytuno o fewn mis ar ôl dyfarnu cyllid. Rhaid i unrhyw newidiadau sylweddol gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.*

**MAEN PRAWF 5 - Y gallu i ehangu a Chynllunio Cynaliadwyedd (terfyn o 500 gair)**

---

[2] Lle bo hynny'n bosibl, gwnewch unrhyw amcanion a Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn rhai CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol) - [Gosod Amcanion CAMPUS]

- ***Y gallu i ehangu:*** *Amlinellwch sut y gallai eich cynlluniau addasu pe bai mwy neu lai o gyllid ar gael, neu pe bai cyllid yn cael ei ymestyn am gyfnod hirach.*

- ***Strategaeth Ymadael:*** *Disgrifiwch sut y byddwch chi'n rheoli diwedd y cyfnod ariannu, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer dirwyn i ben, pontio, neu barhau â gweithgareddau os bydd cyllid yn dod i ben neu nad oes ei angen mwyach.*

- ***Cynaliadwyedd a Gwaddol:*** *Esboniwch sut y bydd canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd yn cael eu hymgorffori i sicrhau manteision hirdymor. Tynnwch sylw at sut y bydd effaith y prosiect yn cael ei chynnal y tu hwnt i'r cyfnod ariannu.*

# Cyflwyno'ch cais

Ar ôl ei gwblhau, rhaid cyflwyno'ch cais i **flwch post yr Is-adran Diwylliant** (diwylliant@llyw.cymru) erbyn **10am ddydd Llun 29 Medi 2025**.

Rhaid llenwi pob rhan o'r ffurflen gais. Gofalwch fod yr wybodaeth rydych yn ei darparu mor gywir â phosibl. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd yr wybodaeth y byddwch wedi'i rhoi yn sail i'r llythyr dyfarnu grant sy'n gytundeb cyfreithiol rwymol.

Byddwn yn gwrthod ffurflenni anghyflawn neu hwyr.

# Amserlen y cynllun grant

| | |
|---|---|
| Cyfnod ymgeisio'n dechrau | 22 Awst 2025 |
| Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau | 29 Medi 2025 10am |
| Cyhoeddi penderfyniadau dyfarnu (cam 1 pasio'r tro cyntaf) | w/c 6 Hydref 2025 |
| Cysylltu â LIC i gytuno ar gynlluniau terfynol | 13 Hydref i 3 Tachwedd 2025 |
| Dyddiad dechrau arfaethedig ar gyfer prosiectau | 3 Tachwedd 2025 |
| Y dyddiad dechrau hwyraf i bob prosiect ar gyfer blwyddyn 1 | 1 Ionawr 2026 |
| Diweddariadau cynnydd Ch4 FY25/26 | 1 Chwefror 2026 |

| | |
|---|---|
| Cyflwyno Hawliadau Grant FY25/26 | 10 Mawrth 2026 |
| Talu Hawliadau Grantiau FY25/26 | 31 Mawrth 2026 |
| Adroddiad cynnydd diwedd blwyddyn ariannol | 30 Ebrill 2026 |
| Diweddariad Cynnydd Ch1 FY26/27 | 1 Mehefin 2026 |
| Diweddariad Cynnydd Ch2 FY26/27 | 1 Medi 2026 |
| Dyddiad gorffen y prosiect | 31 Hydref 2026 |
| Adroddiad cynnydd diwedd blwyddyn ariannol | 1 Tachwedd 2026 |

# Y broses arfarnu

**Cam 1 – Gwirio'r Ceisiadau**

Bydd yr Uwch-reolwr Grantiau yn gwirio bod ceisiadau yn gyflawn. Bydd y gwiriadau hyn yn cynnwys:

- cymhwystra ymgeiswyr / grwpiau
- cymhwystra cyllid y gofynnwyd amdano / costau
- ymatebion i'r holl gwestiynau ac adrannau gorfodol yn y cais
- ymatebion wedi'u cwblhau i'r meini prawf Achos Busnes
- taflen llofnodwyr wedi'i chwblhau
- amser cyflwyno

Bydd ceisiadau cyflawn yn symud ymlaen i Gam 2 ar gyfer eu harfarnu.  Os yw'ch cais yn anghyflawn neu'n methu unrhyw wiriadau, bydd yn cael ei wrthod a bydd yn cael ei ddychwelyd gyda sylwadau i'w hailgyflwyno o fewn 1 wythnos. Ni chaiff ceisiadau hwyr eu derbyn.

Dim ond ar ôl i geisiadau gau y bydd hysbysiad o ganlyniadau cam 1, gydag ail banel yn ystyried y ceisiadau hyn pe bai cyllid ar gael w/c 20 Hydref.

**Cam 2 - Arfarnu Ceisiadau**

Bydd ceisiadau cyflawn yn cael eu harfarnu gan banel o swyddogion Llywodraeth Cymru a fydd yn adolygu pob Maen Prawf ar sail PASIO / METHU yn erbyn cylch gorchwyl y canllawiau grant. Rhaid i geisiadau BASIO pob un o’r 5 maen prawf er mwyn bod yn llwyddiannus.

Yn amodol ar fforddiadwyedd o fewn y cyllid sydd ar gael, bydd ceisiadau sy'n

PASIO[3] yn cael dyfarniad cyllid drwy lythyr Dyfarnu Grant Llywodraeth Cymru, a all gynnwys gofynion grant ychwanegol i chi eu hystyried ac yn amodol ar ein gwiriadau diwydrwydd dyladwy.

Bydd ceisiadau sy'n METHU unrhyw faen prawf yn cael eu dychwelyd gydag adborth sy'n esbonio pam nad oedd yr ymateb yn ddigonol a, lle bo'n briodol, byddant yn cynnwys argymhellion clir i helpu ymgeiswyr i wella eu ceisiadau.

Bydd ceisiadau aflwyddiannus yn cael un cyfle arall i ailgyflwyno eu cais yn y cyfnod grant hwn.  Rhaid i geisiadau sy'n ail ymgais gael eu cyflwyno ar gyfer ailarfarniad o fewn wythnos ar ôl derbyn eu hysbysiad aflwyddiannus.

Os nad yw ymgeiswyr yn llwyddiannus ar yr ail ymgais, ni fyddant yn cael cyllid ond gallant ail-ymgeisio eto pan fydd cyfnodau grant yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol. Nid yw cyfnodau ymgeisio am grant yn y dyfodol wedi'u cadarnhau eto.

Rydym yn rhag-weld y bydd yr holl arfarniadau ar gyfer ceisiadau sydd wedi pasio cam 1 y tro cyntaf wedi cael eu cwblhau erbyn yr wythnos sy'n cychwyn 6 Hydref 2025. Ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei ddyfarnu oni bai bod y cais yn PASIO pob un o'r pum maen prawf.   Bydd arfarniadau ar gyfer ceisiadau nad ydynt wedi pasio cam 1 y tro cyntaf ac a ailgyflwynwyd yn cael eu cwblhau erbyn 31 Hydref.

## Gofynion ceisiadau llwyddiannus

Bydd ceisiadau llwyddiannus yn cael Llythyr Dyfarnu Grant o fewn 30 diwrnod o arfarniad llwyddiannus, er mwyn caniatáu i ymgeiswyr ddechrau eu cynnig.

Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu diweddariadau ar gynnydd o bryd i'w gilydd i'w Cynghorydd Grant a enwir. Bydd pa mor aml y darperir y diweddariadau hyn yn cael ei drafod a'i gytuno wrth ddyfarnu, gydag amserlen fras yn cael ei darparu yn amserlen y cynllun. Gall trefniadau monitro cynnydd gynnwys ceisiadau am adroddiadau, gwybodaeth gyffredinol, dogfennau, data, adnoddau a luniwyd, amserlenni, taflenni amser, gwersi a ddysgwyd, canlyniadau, allbynnau astudiaethau achos ac ymweliadau safle pan fo hynny'n

[3] Croesewir yn arbennig gynigion y gellir eu hehangu. Ar gyfer y rhain, pan fônt yn PASIO, byddwn yn nodi'n glir pa lefel o weithgarwch / cyllid yr ydym yn cynnig ei gefnogi o'r opsiynau a nodir yn eich cais.

briodol. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn gofyn am wybodaeth pan fydd y cynllun yn cael ei arfarnu neu pan fydd unrhyw archwiliadau yn codi.

Rhaid cyflwyno pob hawliad ar y templed a roddir ichi pan ddyfernir y grant. Gyda'r hawliad, rhaid cyflwyno crynodeb byr o hynt gweithgareddau'r prosiect.

Bydd angen cytuno ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cynnig cyllido, dull cyflawni neu'r costau yn ysgrifenedig, cyn iddynt gael eu rhoi ar waith.

Rhaid hawlio a thalu taliadau grant cyn **31 Mawrth 2026** ym mlwyddyn ariannol 2025/2026 ac ar neu cyn **1 Tachwedd 2026** ym mlwyddyn ariannol 2026/27.

# Ble y gallaf gael help?

Os oes angen i chi drafod unrhyw ran o'ch cais, cysylltwch â'r Uwch-reolwr Grantiau ar diwylliant@llyw.cymru.

## Atodiad 1 – Dyraniad Darluniadol gyda Grwpiau Rhanbarthol ac Ardaloedd Partneriaeth a Awgrymir

Mae'r tabl isod yn darparu enghraifft ddarluniadol o'r mathau o grwpiau rhanbarthol ac ardaloedd partneriaeth i ddangos manteision posibl gweithio ar y cyd, yn hytrach na sefydliadau yn ymgeisio'n annibynnol. Nid yw'r canrannau a ddangosir yn rhwymol ac nid ydynt yn cynrychioli dyraniadau sefydlog.

| Awdurdodau Lleol | Dyraniad % | Grwpiau Rhanbarthol | Dyraniad % | Ardaloedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol | Dyraniad % | Rhanbarthau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | Dyraniad % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 2.5% | Gogledd Cymru | 21.9% | Gogledd Cymru | 21.9% | Ynys Môn a Gwynedd | 6.6% |
| Gwynedd | 4.1% | | | | | | |
| Conwy | 3.9% | | | | | Conwy a Sir Ddinbych | 7.1% |
| Sir Ddinbych | 3.2% | | | | | | |
| Sir y Fflint | 5.2% | | | | | Sir y Fflint a Wrecsam | 8.2% |
| Wrecsam | 3.0% | | | | | | |
| Powys | 4.3% | Y Canolbarth a'r Gorllewin | 15.6% | Powys | 4.3% | Powys | 4.3% |
| Ceredigion | 2.3% | | | Gorllewin Cymru | 11.3% | Ceredigion | 2.3% |
| Sir Benfro | 4.1% | | | | | Sir Benfro | 4.1% |
| Sir Gaerfyrddin | 5.0% | | | | | Sir Gaerfyrddin | 5.0% |
| Abertawe | 10.3% | Gorllewin Morgannwg | 12.8% | Gorllewin Morgannwg | 12.8% | Abertawe | 10.3% |
| Castell-nedd Port Talbot | 2.5% | | | | | Castell-nedd Port Talbot | 2.5% |
| Caerdydd | 15.3% | Morgannwg | 30.5% | Caerdydd a’r Fro | 18.0% | Caerdydd | 15.3% |
| Bro Morgannwg | 2.7% | | | | | Bro Morgannwg | 2.7% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3.2% | | | Cwm Taf Morgannwg | 12.5% | Cwm Taf Morgannwg | 12.5% |
| Merthyr Tudful | 0.8% | | | | | | |
| Rhondda Cynon Taf | 8.5% | | | | | | |
| Caerffili | 5.1% | Gwent | 19.2% | Gwent | 19.2% | Gwent | 19.2% |
| Blaenau Gwent | 2.6% | | | | | | |
| Torfaen | 1.8% | | | | | | |
| Sir Fynwy | 2.9% | | | | | | |
| Casnewydd | 6.7% | | | | | | |